Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: CRAFT AID tudalen 1 o 2

Craft Aid, Mauritius, Siwgwr

Photo: Traidcraft/Paul Draper

Craft Aid

Yn gymharol gyfoethog o gymharu â gweddill Affrica, gwlad fechan yw Mauritius gydag ychydig o adnoddau naturiol. Arferai'r economi fod yn hynod ddibynnol ar gynhyrchu siwgwr ond erbyn hyn mae wedi arallgyfeirio ac mae mwy o waith arall ar gael i bobl. Fodd bynnag, os oes gennych anabledd, gall bywyd ddal i fod yn galed.

Sefydlwyd Craft Aid ym 1982. Mae'n sefydliad nid er elw i wella lles pobl ag anableddau. Mae'n gweithio ar yr egwyddor y gall pobl o bob gallu a chefndir gymryd rhan lawn mewn cymdeithas naturiol. Mae Craft Aid wastad wedi rhoi blaenoriaeth i roi gwaith i bobl ag anableddau, yn enwedig y rhai sy'n fyddar neu ag anableddau eraill. Mae hyn tua 40% o'u staff o 220 ar hyn o bryd. Mae'r gwaith yn cynnwys teilwra, gwneud cardiau a phacio siwgwr. Daw eu siwgr gan 30,000 o ffermwyr sy'n ei dyfu ac mae'n cael ei brosesu mewn pedair melin cyn cyrradd Craft Aid i'w bacio

Photo: Traidcraft/Philip Warren

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: CRAFT AID

Craft Aid, Mauritius, Siwgwr

Mae Craft Aid yn cefnogi'r bobl sy'n gweithio yno mewn sawl ffordd. Mae pob gweithiwr yn cael amodau gwaith a buddion da; mae gweithwyr ag anableddau yn enwedig yn aml yn ennill cyflog am y tro cyntaf. Mae Craft Aid yn cyflogi llawer o ferched sy'n ennill cyflog i'r teulu cyfan neu sydd mewn trafferthion (er enghraifft, merched sydd â gŵyr alcoholig). Mae rhai gweithwyr Craft Aid hyd yn oed wedi symud ymlaen i sefydlu eu busnes eu hunain ar ôl gadael.

Addewid Craft Aid

"Byddwn yn aros yn effro i gyfleoedd a bygythion yn y farchnad ac yn addasu ein busnes yn ôl hynny, ond wastad yn cadw at egwyddorion cynnal masnach deg a moesegol. Byddwn yn ymdrechu i wella ein gwaith yn barhaus ac i gynnal ein sefyllfa ariannol fel y gallwn wella safon byw ein staff; fel hyn gallwn gefnogi ac ailsefydlu cymunedau anabl, difreintiedig ac anghenus Mauritius"

Dechreuodd Joanne, sy'n 24 mlwydd oed, weithio yn Craft Aid fis Chwefror 2010. Mae wedi priodi ac mae ganddi fachgen bach. Ei gwaith yn y tîm pacio siwgwr yw pwyso'r bagiau unigol.

Photos: Traidcraft/Monica Philbrick

Mae Traidcraft wedi gwerthu cynnyrch Craft Aid ers 1983 gyda chymorth Traidcraft a'i galluogodd i arallgyfeirio i bacio bwyd.